**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-JH-1398-23

Jayne Bryant
Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Jenny Rathbone
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Drwy e-bost yn unig.

7 Mehefin 2023

Annwyl Jayne a Jenny,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Mai yn ceisio sylwadau ar gwestiynau'r Pwyllgor am y Bil Mudo Anghyfreithlon. Diolch hefyd am gytuno i'r estyniad bach cyn darparu'r llythyr er mwyn ichi ei ystyried.

Isod rwyf wedi rhestru eich cwestiynau fel is-benawdau gyda fy ymatebion oddi tanynt.

**Diweddariad ar drafodaethau gyda Llywodraeth y DU, gan gynnwys manylion unrhyw sicrwydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei geisio ynghylch effaith y Bil ar blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.**

Cyfarfûm â Gweinidog Mewnfudo'r DU, Robert Jenrick AS, ar 30 Mawrth er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o'n pryderon ynghylch y Bil a'n barn bod rhai o ddarpariaethau'r Bil yn effeithio ar gymhwysedd datganoledig. Rydym wedi dilyn hyn gyda llythyrau at Weinidogion y DU a thrwy ymgysylltu rhwng swyddogion yn y Swyddfa Gartref.

Rydym wedi mynegi ein pryder nad yw cynnwys y Bil yn sicrhau lle blaenllaw i hawliau nac anghenion y plentyn mewn penderfyniadau. Rydym wedi nodi'n glir ein bod o'r farn mai gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i asesu anghenion gofal a chymorth plant sy'n cyrraedd y DU heb gael caniatâd i fewnfudo ymlaen llaw. Rydym wedi datgan yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ac wrth ymgysylltu â Llywodraeth y DU na fyddwn yn cefnogi unrhyw benderfyniad i leihau'r rôl awdurdodol hon i weithwyr cymdeithasol wrth asesu beth sydd er budd pennaf plant yn eu gofal.

Roedd ein pryderon cychwynnol yn ymwneud ag erydu'n gyfansoddiadol gymhwysedd Senedd Cymru i ddeddfu ar faterion sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol yng Nghymru, yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ogystal â'r pryder mwy ymarferol y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol symud plentyn o ofal yng Nghymru er gwaethaf barn broffesiynol gweithwyr cymdeithasol arbenigol.

Wrth i welliannau gael eu gosod gerbron Senedd y DU, mae ein pryderon wedi ehangu i gynnwys pryderon y caiff plant eu trin fel oedolion, naill ai am eu bod yn gwrthod cydsynio i ddulliau ymwthiol o asesu oedran yr honnir eu bod yn rhai 'gwyddonol' neu am fod y Swyddfa Gartref wedi dileu'r hawl i apelio yn erbyn penderfyniad asesiad o oedran. Bydd y ddau ganlyniad hyn yn creu pryderon diogelu yng Nghymru a'r posibilrwydd y caiff plant eu symud ymaith o'r DU.

Yn anffodus, er gwaethaf trafodaethau, nid yw Llywodraeth y DU wedi cynnig ymdrin â'n pryderon yn rhagweithiol a dod o hyd i ffyrdd o sicrhau y bydd awdurdodau lleol yn parhau i chwarae rôl arweiniol mewn unrhyw ystyriaeth a roddir i fudd pennaf y plant hyn.

Mae hefyd yn bwysig nodi nad yw cynigion y Bil yn effeithio ar blant ar eu pen eu hunain ***sy'n ceisio lloches****.* Mae'r Bil wedi'i ddrafftio i gynnwys unrhyw blentyn ar ei ben ei hun sy'n bodloni'r pedwar amod yng nghymal 2 o'r Bil.

**Pryderon Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag effaith y Bil ar blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yng Nghymru.**

Nodir bod cymal 19, sy'n ymwneud ag estyn darpariaethau'r Bil mewn perthynas â phlant ar eu pen eu hunain i gynnwys Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, yn datgan bod gan yr Ysgrifennydd Cartref bŵer i wneud rheoliadau estyn yn hytrach na dyletswydd. Nodir hefyd, mewn perthynas â'r cymalau sy'n ymwneud â phlant ar eu pen eu hunain, mai pwerau i'r Ysgrifennydd Cartref yw'r rhain yn hytrach na dyletswyddau ac y bydd yn eu defnyddio 'yn bennaf' o dan amgylchiadau penodol.

Fodd bynnag, er ei bod yn bosibl y caiff neu na chaiff y pwerau hyn eu defnyddio yng Nghymru, mae'n bwysig gwneud y pwyntiau canlynol.

Pan ddefnyddir darpariaethau cymalau 15-18 (ar ôl iddynt gael eu hestyn i gynnwys Cymru drwy gymal 19), byddai plentyn yn cael ei symud o ofal yr awdurdod lleol. Bydd yr awdurdod lleol wedi meddwl yn ofalus am anghenion gofal a chymorth y plentyn hwnnw a bydd wedi trefnu bod cymorth o'r fath ar gael er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Pan gaiff y plentyn ei symud ymaith, mae'n anochel y bydd hyn yn amharu ar allu'r plentyn hwnnw i arfer ei hawliau a pharhau i fod wedi'i integreiddio yn y gymuned y mae wedi bod yn byw ynddi.

Gall y llety a ddarperir gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer plant ar eu pen eu hunain fod yn llety dan gadwad neu lety heb fod gan gadwad, gan nad yw hyn yn cael ei nodi ar wyneb y Bil. Nid oes unrhyw ddyletswydd i ddarparu gofal a chymorth i'r plant hyn, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Plant 1989 (ac yng Nghymru, gan Ran 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014). Byddai gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i ddarparu cymorth i'r plentyn ond nid dyletswydd.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn hanfodol bod y diogelwch rhag y pŵer i symud ymaith sy'n gymwys i blant ar eu pen eu hunain, yn ymestyn y tu hwnt i'w pen-blwydd yn 18 oed. Mae risg y bydd llawer o blant sy'n wynebu'r bygythiad o gael eu symud ymaith wrth iddynt ddod yn oedolion, yn mynd ar goll er mwyn ceisio osgoi hyn, sy'n golygu y gallai pobl eraill gamfanteisio arnynt a'u cam-drin.

Mae'r cyfeiriad at y Swyddfa Gartref yn cadw plant a phobl ifanc yn gaeth yn destun pryder. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai'r Swyddfa Gartref gael y pŵer cyfreithiol i letya plant ac mae'n pryderu y gallai'r swyddogaeth hon ddyblygu a chodi'r un problemau sy'n

gysylltiedig â'r llety dros dro a ddarperir mewn gwestai i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yn Lloegr. Dangoswyd nad yw hyn yn diwallu eu hanghenion ac mae wedi tynnu sylw at broblemau diogelu sylweddol.

Mae cymal 16 yn ei gwneud yn bosibl i blant gael eu symud o lety'r Ysgrifennydd Gwladol a'u dychwelyd i ofal awdurdod lleol ond nid oes unrhyw ofyniad (na disgwyliad) y byddai hyn yn golygu bod y plentyn yn cael ei ddychwelyd i'r awdurdod lleol lle roedd wedi bod yn derbyn gofal yn flaenorol ac nid oes dealltwriaeth glir o'r ffordd y byddai'r awdurdod lleol yn sicrhau bod lleoliadau bob amser ar gael ar gyfer plant sy'n cael eu symud ymaith.

Yn olaf, mewn perthynas â phlant ar eu pen eu hunain, mae Erthygl 22 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi, os bydd plentyn yn ceisio lloches, fod yn rhaid i lywodraethau ei ddiogelu'n briodol a rhoi cymorth priodol iddo er mwyn ei helpu i fwynhau'r holl hawliau yn y Confensiwn. Mae'n amlwg nad yw'r Bil hwn yn cyd-fynd â'r Erthygl hon.

Yn y pen draw, gall plant o'r fath gael eu symud ymaith o'r DU ni waeth beth fo barn arbenigol gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru ynglŷn â'r hyn sydd er budd pennaf y plentyn hwnnw.

Mewn perthynas â chymalau 55 a 56, mae dull gweithredu Llywodraeth y DU yn wahanol i ddulliau sefydledig Cymru o asesu oedran plant ar eu pen eu hunain, fel y'u nodir ym [Mhecyn Cymorth Asesu Oedran Llywodraeth Cymru.]

Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r ddarpariaeth yn y Bil sy'n ymwneud â 'consequences of a person refusing consent for their age to be assessed by a specified scientific method'.  Mae hyn yn golygu y gallai gael ei drin fel oedolyn petai'n gwrthod cydsynio i ddulliau asesu oedran gwyddonol.  Mae'n mynd yn groes i'r argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Cynghori Gwyddonol y Swyddfa Gartref ar Amcangyfrif Oedran (AESAC) a argymhellodd yn ei adroddiad ar asesiadau o oedran, a gyhoeddwyd yn 2022: - "unaccompanied asylum-seeking children should be provided with clear information explaining the risks and benefits of biological evaluation in a format that allows the person undergoing the process to give informed consent and no automatic assumptions or consequences should result from refusal to consent."

Mae Llywodraeth Cymru yn pryderu y bydd y ddarpariaeth yn tanseilio hawl plant i roi cydsyniad sy'n seiliedig ar wybodaeth gan y bydd canlyniadau posibl eu cadw'n gaeth a'u symud ymaith (heb ystyried y trawma y maent yn debygol o fod wedi'i ddioddef eisoes) yn rhoi cryn dipyn o bwysau arnynt i gydsynio i'r broses.

Rydym yn dal i fod o'r farn bod amlygiad i ymbelydredd (a ddefnyddir mewn profion pelydr X i asesu oedran yn fiolegol) at ddiben anfeddygol yn ddangosydd anfoesegol ac annibynadwy o oedran. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen i blant a phobl ifanc sy'n cyrraedd y DU yn ceisio diogelwch a lloches gael gofal a'u trin ag urddas ac y dylid eu trin fel plant yn gyntaf a mudwyr yn ail ac y dylid rhoi cymorth priodol iddynt.

Mae Llywodraeth Cymru yn pryderu y bydd y Bil yn golygu bod y broses apelio bron yn amhosibl i blant yr aseswyd, yn anghywir, eu bod yn oedolion. Mae'r Bil yn nodi na all rhywun sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd i drefnu iddo gael ei symud ymaith o dan y Bil apelio yn erbyn penderfyniad asesiad o oedran. Byddai modd gwneud cais am adolygiad barnwrol ond ni fyddai'r cais yn '... prevent the exercise of any duty or power under this Act to make arrangements for the person's removal'.  Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn hanfodol bod gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir yn eu cylch, yn enwedig pan fydd y penderfyniadau hyn yn gallu cael y fath effeithiau trychinebus ar eu diogelwch pan fydd allgludo yn cael ei ystyried.

Mae hyn yn destun pryder mawr am fod adroddiadau diweddar yn awgrymu y canfyddir bod tua dau o bob tri phenderfyniad asesiad cychwynnol o oedran yn anghywir yn ddiweddarach.[1] Os diddymir y broses apelio, a nodwyd yn Neddf Cenedligrwydd a Ffiniau y Llywodraeth, gallai plant gael eu hallgludo i wledydd anniogel a chael eu hamddifadu o'u hawliau i loches a diogelwch a roddir iddynt o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

O ganlyniad i newidiadau Llywodraeth y DU yn y Bil hwn, byddai rhai plant yn cael eu hystyried yn oedolion ar gam a'u symud o ofal awdurdodau lleol yng Nghymru, a'u lletya gydag oedolion a fyddai'n aros i gael eu symud ymaith o'r DU, gyda'r holl bryderon diogelu sy'n gysylltiedig â hyn, ac yna eu symud o'r DU. Gwyddom fod penderfyniadau asesiadau cychwynnol o oedran yn aml yn cael eu herio'n llwyddiannus a'u newid o benderfyniad bod rhywun yn oedolyn i gydnabod bod yr unigolyn hwnnw'n blentyn. Mae'r newidiadau yn y Bil yn atal y penderfyniadau hyn rhag cael eu hailystyried, gan adael plant mewn sefyllfaoedd anniogel ymhlith oedolion.

**Y goblygiadau a ragwelir yn sgil y Bil ar asesu anghenion a darparu gofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**

Ar y cyfan, ni ddylai darpariaethau'r Bil atal awdurdodau lleol yng Nghymru rhag asesu anghenion plant ar eu pen eu hunain sy'n dod i'w hardal, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Fodd bynnag, byddai defnyddio'r pwerau yng nghymalau 15-18 yn golygu tarfu ar y gofal a'r cymorth sy'n cael eu darparu i blant yr effeithir arnynt gan y byddant yn cael eu symud o ofal awdurdodau lleol. Os bydd Llywodraeth y DU wedyn yn penderfynu na all symud y plentyn ymaith o'r DU mewn modd amserol, nid yw'n glir sut y caiff y plentyn ei ddychwelyd i ofal awdurdod lleol.

Er gwaethaf prosesau asesu oedran Llywodraeth y DU, nid oes unrhyw reswm deddfwriaethol pam na all awdurdodau lleol yng Nghymru hefyd ddilyn Pecyn Cymorth Asesu Oedran Llywodraeth Cymru fel rhan o'u hasesiad o anghenion gofal a chymorth yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd rhai achosion yn arwain at benderfyniadau asesiadau cychwynol croes. Os bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn canfod bod yr unigolyn yn blentyn ag anghenion gofal a chymorth, gellir darparu'r rhain yn lleol – er na fydd Llywodraeth y DU yn darparu'r cyllid sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau angenrheidiol os bydd yn ystyried bod y person ifanc yn oedolyn. Os bydd Llywodraeth y DU yn ystyried bod y person ifanc yn oedolyn, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol o dan ddyletswydd i symud y person ifanc hwn ymaith o'r DU ni waeth beth fydd asesiadau awdurdodau lleol yng Nghymru.

**A yw'r Bil yn gydnaws â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, gan gynnwys pa effaith y byddai'n ei chael ar y dull 'plentyn yn gyntaf, ymfudwr yn ail' sy'n sail i'r cymorth a roddir i blant sy'n ceisio lloches yng Nghymru.**

Yng Nghymru, mae awdurdodau lleol yn trin pob plentyn ar ei ben ei hun sy'n ceisio lloches fel plentyn sy'n derbyn gofal, yn unol â Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer amrywiaeth o swyddogaethau asesu i helpu awdurdodau lleol Cymru i ystyried anghenion gofal a chymorth plant yn eu hardal. Mae gwasanaethau cymdeithasol wedi'u datganoli'n llawn i Lywodraeth Cymru ac, felly, mater i Weinidogion Cymru yw'r holl benderfyniadau deddfwriaethol a pholisi sy'n ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol.

---

[1] Hundreds of UK asylum seeker children wrongly treated as adults, report shows | Immigration and asylum | The Guardian

Wrth arfer eu swyddogaethau sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya, rhaid i awdurdodau lleol ystyried eu dyletswyddau cyffredinol i roi sylw dyladwy i Ran 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fel y'i nodwyd yn adran 7 o'r Ddeddf. Fodd bynnag, byddai cymalau 19 ac 20 o'r Bil yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i orfodi i blant ar eu pen eu hunain gael eu trosglwyddo i'w (g)ofal ac o'i (g)ofal heb ystyried y penderfyniadau y gallai awdurdodau lleol yng Nghymru eu gwneud ynghylch anghenion gofal a chymorth y plant hynny nac ychwaith yr hyn yr ystyrir ei fod er budd pennaf y plant hynny, o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a CCUHP.

Nodir nad oes yr un Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA) wedi'i gynnal ar y Bil. Mae'n debygol y byddai Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn amlygu sawl maes lle mae plant yn cael eu hamddifadu o'u hawliau. Fodd bynnag, cyfeirir at 'Oedran' yn Asesiad Llywodraeth y DU o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gyhoeddwyd ar 26 Ebrill 2023 ond nid oes rhesymeg glir sy'n esbonio pam mae Llywodraeth y DU o'r farn na fydd y Bil yn cael unrhyw effaith negyddol ar blant.

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd sylw dyladwy ar Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ystyried hawliau plant wrth lunio polisïau. Nodir hawliau plant yn Erthyglau CCUHP sydd, yn ei dro, yn cyfleu hawliau dynol plant a phobl ifanc fel y'u nodwyd yn Neddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Nodir, ar dudalen flaen y Bil ei hun, na all Llywodraeth y DU gadarnhau bod y Bil yn cydymffurfio â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Mae Erthygl 1 o CCUHP yn nodi bod gan bawb o dan 18 oed yr holl hawliau yn y Confensiwn. Nodir bod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cyfeirio at nifer y bobl a groesodd y sianel yn 2022 – sef 45,755. Mae'n dadansoddi'r ffigurau ar gyfer unigolion 18–39 oed (33,464) ond nid yw'n rhoi oedrannau'r 12,291 o bobl eraill a deithiodd i'r DU. Felly, nid yw'n glir faint ohonynt oedd o dan 18 oed. Sut bynnag, mae gan bob un o'r rheiny sy'n blant yr hawl ddynol i gael eu trin fel plant a chael eu diogelu yn unol ag Erthygl 1 o CCUHP. Nodir bod y Bil yn datgan bod ei ddarpariaethau ar gyfer symud ymaith yn gymwys o 7 Mawrth 2023 a bod gan yr Ysgrifennydd Cartref y pŵer i symud ymaith blentyn ar ei ben ei hun a gyrhaeddodd y DU ar y dyddiad hwnnw neu ar ei ôl. Felly, mae'n amlwg bod y ddarpariaeth hon yn creu dosbarth newydd o blentyn, sef plentyn heb yr un o'r 42 o hawliau o dan y Confensiwn a roddir gan Erthygl 1.

**Baich y gost a ragwelir ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru.**

Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl ystyried cost y newidiadau hyn i awdurdodau lleol yng Nghymru. Nid yw'r nodiadau esboniadau ar gyfer y Bil yn darparu gwybodaeth am y costau a osodir gan y cymalau hyn. At hynny, dim ond os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu estyn y darpariaethau i gynnwys Cymru y bydd y costau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r pwerau o dan gymalau 15-18 yn codi.

Serch hynny, mae'n amlwg y bydd costau i awdurdodau lleol os caiff y cynigion hyn eu rhoi ar waith. O ystyried y potensial i asesiadau nodi, yn anghywir, fod plant yn oedolyn (gyda'r effaith ar iechyd meddwl plant a'r risgiau diogelu sy'n gysylltiedig â hynny), gallai beichiau cost sylweddol gael eu gosod ar awdurdodau lleol yng Nghymru a/neu gyrff iechyd yng Nghymru, gan y cymalau hyn a'r rheoliadau a wneir oddi tanynt. Mae'n debygol y bydd costau yn gysylltiedig â defnyddio cymal diwygiedig 3 i newid deddfwriaeth y Senedd o ran cyngor cyfreithiol, newidiadau i ganllawiau a hyfforddiant ond ni ellir amcangyfrif y costau hyn ar hyn o bryd.

**Pryderon ynghylch y Bil a'i gydnawsedd â hawliau'r Confensiwn.**


Wrth lunio datganiad a.19(1(b) wrth gyflwyno'r Bil, ni all yr Ysgrifennydd Gwladol gadarnhau bod ei ddarpariaethau yn cyd-fynd â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("y Confensiwn"). Yn ogystal â'r ffaith ei fod yn torri Cyfraith Hawliau Dynol Ryngwladol yn ôl pob tebyg, mae darpariaeth yn y Bil yn lleihau cwmpas mesurau diogelu hawliau dynol yn y DU gan ddileu mesurau diogelu o'r fath yn gyfan gwbl mewn rhai achosion. Wrth wneud hynny, mae'r DU yn torri ei rhwymedigaethau o dan y Confensiwn ymhellach. Mae hyn yn gwbl anghydnaws â'r lle canolog sydd gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn y setliad datganoli. Rhaid i Weinidogion Cymru a'r Senedd, wrth arfer eu priod bwerau, gydymffurfio â hawliau a nodir yn y Confensiwn. Ni fydd llawer o bobl yr effeithir arnynt yn cael eu diogelu o gwbl o dan y gyfraith. Mae'n debygol y bydd yr ychydig rai sy'n cael eu diogelu felly yn wynebu gweithdrefnau hirfaith a fydd yn eu gadael mewn sefyllfa niwlog gan beri risgiau gwirioneddol i'w llesiant emosiynol a'u lles yn gyffredinol.

**A allwch gadarnhau a yw swydd y Comisiynydd Gwrthgaethwasiaeth Annibynnol yn wag ar hyn o bryd ac os felly, am faint o amser y bu'n wag a phryd y gallwn ddisgwyl i'r swydd gael ei llenwi?**

Gallaf gadarnhau bod swydd y Comisiynydd Gwrthgaethwasiaeth Annibynnol wedi bod yn wag ers i'r Fonesig Sara Thornton adael y swydd ym mis Ebrill 2022. Nodais fy mhryder ynghylch yr oedi cyn llenwi'r swydd hon yn fy Natganiad Ysgrifenedig ar ymdrin â chaethwasiaeth fodern a chefnogi goroeswyr ym mis Tachwedd 2022. Mae fy swyddogion wedi codi'r pryderon hyn yn rheolaidd gyda'r Swyddfa Gartref. Ailagorodd y Swyddfa Gartref y broses recriwtio ar gyfer penodi Comisiynydd newydd yn gynharach eleni. Rydym ar ddeall bod disgwyl i'r broses hon ddod i ben yn fuan.

Gobeithio bod yr atebion hyn yn ddefnyddiol wrth i'r Pwyllgor ystyried Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Mudo Anghyfreithlon.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**